

Cwm-du



Tafarn Cwm-du



Tegeirian llydanwyrdd

#DymaSirGar

#ThisisCarmarthenshire



Pam Dewis Cerdded?

Yng nghanol y pentref hardd hwn y mae'r dafarn a'r siop leol sydd wedi cael eu rhedeg gan y gymuned ers 2000. Mae'r daith gerdded hon yn hanfodol i unrhyw fotanegydd newydd neu broffesiynol yn y sir, gan fod y llwybrau'n mynd drwy'r dolydd prydfarth sy'n llawn amrywiaeth eang o flodau gwyllt, sy'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.



Pa mor bell?

Mae'n bosibl mwynhau taith gerdded fer sy'n parhau am awr yn unig neu daith gerdded hirach sy'n parhau am y diwrnod cyfan. Mae'r teithiau cerdded yn amrywio rhwng 2km a 7.3km.



Pa mor anodd?

Mae'r daith gerdded fer drwy'r dolydd ychydig dros 2km (1¼ milltir) ac mae'r daith yn mynd dros dir cymharol wastad.

Mae'r daith gerdded ganolig, yn union i'r de o'r pentref, yn 3.7km (2½ milltir).

Mae'r daith gerdded hir o bentref Cwm-du sy'n mynd heibio i'r fryngaer a pharcdir Taliaris tua 7.3 km (4½ milltir) ac mae rhannau hir o'r daith yn fryniog (tua 250 metr neu 820 troedfedd o ddringo).

Noder fod rhai o'r llwybrau yn yr ardal yn gallu parhau'n wlyb hyd yn oed yn yr haf.



Y Man Cychwyn/Y Maes Parcio - pentref Cwm-du



Trafnidiaeth Gyhoeddus - i gael y wybodaeth ddiweddaraf ewch i'r wefan <http://www.cymraeg.traveline.cymru/>




Lluniaeth - ✓

1 Mae **Capel Providence** y Bedyddwyr yn enghraifft fendigedig o gapel yr anghydfurfwyr yn yr 19eg ganrif. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n berchen ar y rhes o dai teras wrth ei ymyl, sy'n cynnwys y swyddfa bost/siop a thafarn y pentref.

2 **Roedd y fferm yng Nghapel Hir** yn cael ei ddefnyddio fel tŷ cwrdd gan anghydfurfwyr yn y 17eg a'r 18fed ganrif.

Mannau o ddiddordeb



3 Mae'r daith gron fer i'r gogledd o'r pentref yn hanfodol i unrhyw fotanegydd. Mae'r llwybrau'n mynd drwy ddolydd sy'n llawn blodau ac sy'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r dolydd hyn wedi osgoi "gwelliannau" amaethyddol modern o ran cael eu haredig yn ddwfn, eu hail-hau a chael gwrtaith.

Yn ogystal, mae'r dolydd yn hafan i amrywiaeth o bili-palod gan gynnwys iâr fach fodrwyog sy'n lliw brown tebyg i siocled. **Cofiwch fod codi'r blodau yn anghyfreithlon.**

4 Mae **Maes y Castell**, sef bryngaer Oes Haearn sydd wedi'i chadw mewn cyflwr da, dros 2,000 mlwydd oed ac mae'n ein hatgoffa am yr adeg pan oedd penaethiaid rhyfelgar yn rheoli Cymru. Mae'r fryngaer yn Heneb Gofrestredig ac mae llwybr caniatool yn arwain ati.

5 **Credir bod sylfeini plasty Taliaris** yn dyddio o'r cyfnod canoloesol, a'r grisiau derw crand a'r plastr addurnedig ar y nenfwd yn yr ystafell fyw yn dyddio o ddechrau'r 17eg ganrif. Bellach mae plasty Taliaris yn faes gwyliau, ac

nid yw ar agor ar gyfer y cyhoedd.

6 **O flaen plasty Taliaris** mae'r llwybr cerdded yn croesi rhan o'r parcdir a gafodd ei ddylunio yn y 19eg ganrif i roi golygfa ddymunol a lle i'r trigolion gerdded. Cafodd y coed mawr yng nghanol y caeau eu plannu fel nodweddion addurnol.

7 **Y tu ôl i blasty Taliaris** y mae tiroedd gweithio'r ystâd. Efallai fod enw'r lle 'The Warren' yn gysylltiedig â ffermio cwingod yn y cyfnod canoloesol neu yn Oes y Tuduriaid. Mae'r goedwig yn y fan hon o ganlyniad i blanhigfa'r ystâd ac mae'r coed yn cael eu hamgylchynu gan wal fawr.

8 Mae'r amrywiaeth hyfryd o **redyn, blodau, llwyni a choed** sy'n tyfu yn y perthi naill ochr a'r llall i'r llwybr yn dangos bod y perthi yn y fan hon yn gannoedd o flynyddoedd oed. Mae marchredynen fenyw, rhedyn y cadno a hopys gwyllt yn ffynnu yn y fan hon ynghyd â'r blodau bysedd y cŵn, fioled ac erwain.